

Cynlluniau Lle Ceredigion

Cynllun Lle Aberystwyth a'r Fro

Aberystwyth a'r Fro 2040

2019



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Trosolwg

Rai degawdau yn ôl, disgrifiodd ymgynghoriad mawr ym maes twristiaeth Aberystwyth fel 'tref glan môr nodweddiadol Gymreig' ac, er bod hyn yn dal i fod yn wir heddiw, mae Aberystwyth a'r fro o'i hamgylch yn fwy na hynny. Fel y dangoswyd yn glir gan y rheini a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad i lunio'r Cynllun Lle hwn, mae'n amlwg yn bwysig iawn y dylai Aberystwyth ddiogelu a datblygu ei hunaniaeth fel tref Gymreig, a hynny o ran iaith a diwylliant. Ond mae elfennau eraill, yn ychwanegol at ei lleoliad glan môr, yn cyfrannu at fwrlwm yr ardal fywiog hon. Mae'r ardal wledig o'i hamgylch yn cyfrannu at yr economi leol ac at iechyd a llesiant trigolion yr ardal. Mae'r sefydliadau cenedlaethol sydd wedi'u lleoli yma yn darparu swyddi, ac maent hefyd yn diogelu ein hanes, ein hiaith a'n diwylliant. Mae adeiladau eiconig, fel yr Hen Goleg a'r Llyfrgell Genedlaethol, yn ogystal ag eglwysi, siopau a thai o'r oes o'r blaen sy'n agos at galon y trigolion, yn ychwanegu at gyfoeth y bensaernïaeth leol. Mae'r trigolion yn awyddus i warchod y bensaernïaeth hon, gan fynd ati ar yr un pryd i'w haddasu'n sensitif i ateb gofynion yr oes fodern. Mae Aberystwyth a'r ardal ehangach o'i hamgylch yn unigryw. O ddiogelu pob agwedd ar eu natur unigryw a'u hansawdd, bydd yn sicrhau llwyddiant economaidd yn y dyfodol.

Ymgynghori

Ym mis Chwefror 2019, daeth nifer dda o bobl i weithdy lle aethpwyd ati i bennu'r prif themâu i'w defnyddio gan y Grŵp Llywio i lunio'r Cynllun Lle a lle gosodwyd sylfaen ar gyfer ymgynghori pellach drwy gyfrwng holiadur. Dosbarthwyd yr holiadur yn eang ac fe'i cyhoeddwyd ar-lein. Roedd canfyddiadau'r holiadur ar-lein yn ategu'r safbwyntiau a gasglwyd yn y gweithdy.

Themâu:

1. Yr economi leol
2. Yr amgylchedd
3. Cludiant
4. Iechyd a llesiant
5. Ein cymunedau
6. Diwylliant a threftadaeth
7. Tai a chynllunio

THEMA 1: Yr economi leol

Y prif egwyddorion:

- Creu diwylliant sy'n gydnaws â datblygu mwy o fusnesau lleol, sicrhau eu bod yn ffynnu, a manteisio mwy ar gynhyrchion a nwyddau manwerthu lleol / o Gymru
- Manteisio i'r eithaf ar y Brifysgol a'r Llyfrgell Genedlaethol
- Gwneud y gorau o lan y môr, yr afonydd a'r bryniau, ond cynnal cymeriad pensaernïol y dref
- Gwella'r trefniadau i reoli'r dref a meithrin enw da am fod yn dref lân

STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL

<p>Cefnogi mentrau lleol: cefnogi busnesau, siopau, cynnyrch a mentrau cymdeithasol lleol ar y stryd fawr, a rhoi blaenoriaeth iddynt, er mwyn creu cymysgedd buddiol o fusnesau lleol a chenedlaethol</p>	<p>Pennu lleoliadau y byddai modd eu datblygu i greu unedau gweithgynhyrchu bach ar gyfer crefftwyr</p>
<p>Yr economi liw nos: manteisio i'r eithaf ar yr economi liw nos</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli effaith niweidiol alcohol a sŵn • Annog tafarndai i ychwanegu at eu darpariaeth
<p>Cysylltedd: gwella band eang a sicrhau bod modd defnyddio technolegau newydd</p>	
<p>Ystadau masnachu: eu datblygu mewn ffordd ecogyfeillgar</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Glanyrafon • Llanbadarn Fawr
<p>Twristiaeth: cynllun cadwraeth i warchod ac i adfer blaenau siopau a nodweddion hanesyddol, gan gynnwys lloriau mosäig wrth ddrysau siopau (a'u hefelychu mewn datblygiadau newydd)</p>	<p>Canllawiau atodol</p>
<p>Cryfhau'r hunaniaeth Gymreig e.e. arwyddion:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Arwyddion dwyieithog sy'n rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg • Gwarchod enwau tai a strydoedd Cymraeg, yn enwedig y rheini ac iddynt werth hanesyddol
<p>Hyrwyddo treftadaeth/adnoddau naturiol – y mynyddoedd, yr arfordir, y môr a bywyd gwyllt – ymhlith ymwelwyr:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pen Dinas • Craig Glais • Parc Natur Penglais
<p>Y Promenâd: gwneud y gorau o'n glan môr poblogaidd o Oes Fictoria mewn ffordd sy'n gydnaws â gwerthoedd y Cynllun Lle hwn,</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adfer nodweddion hanesyddol fel y pwll dŵr heli / côr y castell • Peidio â chefnogi cynigion fel y weiren wib

h.y. diogelu a hyrwyddo'r bensaernïaeth, yr hanes, yr iaith a'r diwylliant	
Afonydd: Gwneud y gorau o afonydd Rheidol ac Ystwyth drwy ddarparu mynediad priodol atynt	<ul style="list-style-type: none"> • Llwybrau cerdded a beicio, a mannau i eistedd • Dylai datblygiadau ddarparu mynediad i'r cyhoedd
Cŵn: darparu rhywle i berchnogion cŵn cyfrifol fynd iddo pan fydd y traethau ar gau	

THEMA 2: Yr amgylchedd

Y prif egwyddorion:

- Diogelu'r amgylchedd morol: lleihau gwastraff a sicrhau bod y traeth yn lân
- Diogelu mannau cymunedol gwyrdd a gwella bioamrywiaeth
- Lleihau gwastraff (yr economi gylchol) ac annog pobl i ailgylchu
- Hybu systemau rheoli cynaliadwy ac organig
- Peri i Aberystwyth fod yn amgylchedd carbon niwtral lle caiff ynni ei gynhyrchu a'i ddefnyddio'n lleol

STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL

Mannau gwyrdd: diogelu, gwella a chynyddu bioamrywiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Diogelu a gwella'r mannau cymunedol gwyrdd hygyrch a geir eisoes yn Aberystwyth, Llanbadarn Fawr a Waunfawr, ynghyd â hen Neuadd y Cadetiaid Môr yn Nhrefechan • Diogelu coed a choetiroedd, a phlannu mwy o goed • Rhoi cynllun ar waith i blannu coed ar strydoedd ac i ailblannu coed a choedlannau a gafodd eu cwmpo • Cynnwys coed newydd mewn ceisiadau cynllunio lle bo modd • Mapio lleiniau a choridorau ar ymyl ffyrdd lle byddai'n addas plannu blodau gwyllt (e.e. Coedlan Plascrug, Ffordd Penparcau, Ffordd Penglais) a lladd gwair ar leiniau ymyl ffyrdd yn llai aml i hybu bioamrywiaeth
Mannau tyfu:	<ul style="list-style-type: none"> • Pennu lleoliadau ar gyfer mannau tyfu cymunedol a rhandiroedd • Annog pobl i osod toeon gwyrdd a/neu baneli solar • Annog ymdeimlad o falchder bro e.e. gerddi preifat

Rheoli gwastraff	<ul style="list-style-type: none"> • Cael hyd i ffyrdd o ddatrys y sbwriel a achosir gan wylanod / llygod a phreswylwyr anghyfrifol • Llunio strategaeth i leihau deunydd pecynnu ac i gynyddu nifer y cyfleusterau ailgylchu • Defnyddio llai o gemegau i reoli parciau, mewn siopau a busnesau, ac ar ffermydd • Glanhau dyfrffyrdd, draeniau a ffosydd yn rheolaidd
Newid hinsawdd	<ul style="list-style-type: none"> • Galluogi mentrau ynni adnewyddadwy • Rhoi cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd afonol ac arfordirol ar waith, plannu coed ar yr ucheldir, ac osgoi adeiladu ar orlifdir • Rhoi strategaeth ar waith i leihau allyriadau CO2 i sero-net erbyn/cyn 2030
THEMA 3: Cludiant	
Y prif egwyddorion: <ul style="list-style-type: none"> • Gwella cludiant cyhoeddus, y ddarpariaeth parcio, a chludiant gwyrdd 	
STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL	
Beicio: Darparu mwy o ardaloedd a llwybrau sy'n addas i feicwyr a'u cysylltu â llwybrau cerdded – ond gwahanu gwahanol fathau o ddefnyddwyr lle bo modd i sicrhau eu bod yn ddiogel	<ul style="list-style-type: none"> • Heol Pen-y-bont • Llwybr Ystwyth – llwybr amgen gwastad at fryn Felin-y-môr o amgylch yr harbwr • Cysylltu Penparcau â Llwybr Ystwyth yn Nhanybwllch
Israddio ffyrdd / creu parthau cerddwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Israddio Ffordd Alexandra, y Stryd Fawr (a Ffordd Penparcau) • Creu parth cerddwyr ar y brif stryd
Cludiant cyhoeddus: Cysylltu gwasanaethau bysiau a gwasanaethau trenau	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried y posibilrwydd o wella ac ailgynllunio safle'r hen ddepo olew • Byrhau'r rheilffordd oddeutu 15 llath i ddarparu mynediad i gerddwyr a beicwyr o faes parcio Matalan i flaen siop Lidl ac i wella'r porth i'r rheilffordd (ERS PENNU'R POSIBILRWYDD O WNEUD HYN, DECHREUWYD ADEILADU AR Y TIR)

	<ul style="list-style-type: none"> • Blaenoriaethu'r rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin • Gwella'r wybodaeth am drenau / bysiau a'r cysylltiadau â dinasoedd (Caerdydd / Bangor / Birmingham / Llundain) • Cyflwyno gwasanaeth parcio a theithio o Lanfarian ac o Bow Street, gyda chysylltiadau â chanol y dref, yr ystad ddiwydiannol, Parc y Llyn, Ysbyty Bronglais, meddygfeydd a Choedlan y Parc • Darparu gwasanaethau gwell a mwy mynych rhwng Aberystwyth a phentrefi cyfagos Llanbadarn Fawr a Phenparcau, rhwng y dref a'r prif sefydliadau, a rhwng y dref a phentrefi fel Bow Street a Phenrhyn-coch
Cludiant/ynni gwyrdd: Rhoi polisi cludiant gwyrdd ar waith	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod manau gwefru ceir/beiciau mewn meysydd parcio (M&S a CSC) gan ddefnyddio paneli solar a batris storio ynni • Cynnwys manau gwefru mewn ceisiadau cynllunio
Parcio	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried parcio i breswylwyr lle bo'n briodol

THEMA 4: Iechyd a Llesiant

Y prif egwyddorion:

Gweithgareddau llesiant a gwasanaethau iechyd hygyrch i bawb

STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL

Bronglais: cynnal gwasanaethau ysbyty, gwasanaethau iechyd meddwl, deintyddion ac ati	Hywel Dda
Mynediad i bobl anabl	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod cyrbau isel, palmentydd botymog, parthau cerddwyr • Lleihau rhwystrau e.e. trugareddau ar strydoedd/palmentydd, croesfannau peryglus (gweler diogelwch cerddwyr isod) • Gwybodaeth hygyrch e.e. cludiant
Toiledau cyhoeddus:	Cynnal y ddarpariaeth bresennol

Hamdden a chwaraeon: datblygu Aberystwyth er mwyn iddi fod yn ganolfan ar gyfer chwaraeon elît i bobl o bob oed	Cydweithio â'r ysgolion a'r Brifysgol i ddarparu/ddefnyddio cyfleusterau hamdden/chwaraeon
--	--

THEMA 5: Ein cymunedau

Y prif egwyddorion:

- Cynnal enw da Aberystwyth am fod yn lle glân a diogel i fyw ac i gymdeithasu ynddo
- Hybu cydlyniant cymunedol drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau
- Cymuned ofalgar: cefnogi'r rheini sy'n llai ffodus a chroesawu amrywiaeth
- Annog cymunedau, busnesau a mentrau cymdeithasol i gydweithio
- Gwella democratiaeth leol ac ymgysylltu â phobl o bob oed
- Buddsoddi yn y ddwy ysgol uwchradd
- Rhannu adnoddau'r ysgolion, y Coleg a'r Brifysgol, a gwella'r berthynas rhwng y dref a'r Brifysgol
- Ymgysylltu â phobl lle y maent
- Hybu balchder bro a chynnwys pobl yn y gwaith o greu tref lân; cyflogi warden

STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL

Mannau cymunedol i bawb	Pob maes chwarae, parc a choetir
Canolfan gymunedol a Neuadd y Dref	Clinig a pharc Ffordd y Gogledd
Dylai datblygiadau tai a manwerthu adeiladu cymunedau	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai dyluniad datblygiadau ateb gofynion y gymuned, gan roi blaenoriaeth i hygyrchedd • Dylid clustnodi lleoliadau sy'n addas i rai sy'n prynu am y tro cyntaf a'r tro olaf i daro cydbwysedd o ran deiliadaeth ac i gynnal ymdeimlad o falchder bro
Diogelwch cerddwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Creu parth cerddwyr yng nghanol y dref • Creu mwy o barthau 20 milltir yr awr e.e. Ffordd y Gogledd • Gwella croesfannau i gerddwyr: <ul style="list-style-type: none"> ○ Cylchfan Dan Dre/Ffordd Alexandra ○ Cyffordd Ffordd Llanbadarn/Ffordd Penglais ○ Cornel y Western Vaults

THEMA 6: Diwylliant a threftadaeth

Y prif egwyddorion:

- Diogelu Aberystwyth fel tref glan môr fywiog Gymreig sydd o bwys diwylliannol a hanesyddol i Gymru, ac i'r byd, ac fel tref gynaliadwy, amrywiol a moesegol
- Dathlu a defnyddio Cymreictod Aberystwyth, a'i chymuned a'i diwylliant Gymreig – prifddinas ddiwylliannol Cymru
- Dathlu cysylltiad pwysig Aberystwyth â'r Gymraeg (e.e. yr ysgol Gymraeg gyntaf, y brotest iaith gyntaf)
- Cynnal a datblygu addysg Gymraeg a dwyieithog – cynnal a thyfu ysgolion cyfrwng Gymraeg a Neuadd Pantycelyn
- Dathlu'r iaith fel modd o hybu'r economi
- Cadw'r Gymraeg yn fyw ac yn bresennol yn ein cymdeithas, a chyfrannu at Strategaeth Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru drwy fynd ati i gynyddu nifer y siaradwyr
- Dathlu amrywiaeth amlddiwylliannol Aberystwyth
- Dathlu'r sefydliadau cenedlaethol ac ymgysylltu â nhw: Mudiad Meithrin, Merched y Wawr, y Llyfrgell Genedlaethol, Arad Goch, y Cyngor Llyfrau, UCAC, Undeb Amaethwyr Cymru, yr Archif Ddarlledu Genedlaethol

STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL

Y Gymraeg	<ul style="list-style-type: none">• Dylai'r drefn gynllunio beri iddi fod yn ofynnol cynnal asesiad o'r risg i'r Gymraeg ar gyfer datblygiadau tai a datblygiadau eraill• Dylid gorfodi'r gofynion i arddangos arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog (ac enwau lleoedd Cymraeg) a chynnal y safonau ieithyddol
Celf stryd: dylai fod yn gydnaws â'r hunaniaeth leol	<ul style="list-style-type: none">• Adfer Cofeb Rhyfel y Tabernacl a'i symud i hen Neuadd y Dref• Llunio strategaeth 'celf stryd'
Diwylliant: darparu mannau cymunedol ar gyfer digwyddiadau diwylliannol a hanesyddol	<ul style="list-style-type: none">• Gwella'r llwybrau ag arwyddion i Ganolfan y Celfyddydau a'r Llyfrgell Genedlaethol, a gwella'r cysylltiadau bysiau â'r safleoedd hyn• Archwilio a galluogi lleoliadau addas ar gyfer digwyddiadau
Safleoedd hanesyddol: eu diogelu	Diogelu safleoedd rhag datblygiadau amhriodol a rhag iddynt ddirywio e.e. safle hynafol Pendinas, Craig Glais, a glan y môr

<p>Dehongli lleoedd a datblygiadau pwysig yn hanes Cymru fel rhan o strategaeth dwristiaeth yr ardal</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Archwilio safleoedd a llunio strategaeth • Gosod placiau i dynnu sylw at unigolion a safleoedd diwylliannol o bwys
<p>Treftadaeth: Dathlu treftadaeth drwy ddigwyddiadau pwrpasol ar gyfer ymwelwyr a phobl leol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Teithiau cerdded • Adloniant lleol

THEMA 7: Tai a chynllunio

Y prif egwyddorion:

- Atal gorddatblygu, diogelu'r amgylchedd a bywyd gwylt
- Gwella'r stoc dai drwy ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd da i bobl o bob oed eu prynu a'u rhentu
- Dylai tai gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymunedol, a dylai pob datblygiad beri i'r preswylwyr deimlo mwy o falchder yn eu bro, a hynny drwy'r dyluniad a thrwy ddefnyddio deunyddiau lleol
- Dylai polisiâu cynllunio annog pensaernïaeth o safon
- Adeiladu tai ecogyfeillgar i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

Strategaeth ar gyfer y dyfodol

<p>Polisi cynllunio – cadwraeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diogelu pensaernïaeth ac adeiladau hanesyddol Aberystwyth • Defnyddio deunyddiau adeiladu sy'n berthnasol i'r ardal leol
<p>Rheoli cynllunio – cynnal a gorfodi:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a chadw adeiladau, a mynd i'r afael ag eiddo sydd wedi mynd â'i ben iddo • Gwella lloriau uchaf adeiladau yng nghanol y dref
<p>Dewisiadau tai: ateb gofynion y gymuned a thorri tir newydd:</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cartrefi fforddiadwy ac ecogyfeillgar sy'n llai o faint ac sydd o ansawdd da i bobl hŷn sy'n prynu 'am y tro olaf' (byddai hyn yn rhyddhau tai i deuluoedd) • Cartrefi fforddiadwy i bobl ifanc sy'n prynu 'am y tro cyntaf' • Tai cymdeithasol i deuluoedd ifanc • Troi fflatiau uwchben siopau'n gartrefi • Defnyddio eiddo sy'n bodoli eisoes e.e. addasu tai tref yn fflatiau rhydd-ddaliadol a rennir

SAFLEOEDD DATBLYGU POSIBL (a bennwyd gan Gyngor Sir Ceredigion)	
Waunfawr a Llanbadarn Fawr	– dylid diogelu mannau gwyrdd
Depo Arriva:	Tai fforddiadwy i bobl hŷn sy'n prynu 'am y tro olaf' a phobl ifanc sy'n prynu 'am y tro cyntaf' (yn ôl oddi wrth y ffordd). Tir gwastad sy'n agos at amwynderau
Safle'r Hen Fragdy:	Unedau bach i grefftwyr ac unedau preswyl
Hen safle'r Cadetiaid Môr:	Ei gadw fel man gwyrdd gyda seddi a phlanhigion sy'n denu gwenyn, ond dylai dyluniad a deunyddiau adeiladu unrhyw ddatblygiad fod yn gydnaws â phensaernïaeth hanesyddol pont Trefechan a'r hen felin
Yr hen ddepo olew:	Posibilrwydd o ailgynllunio'r orsaf trenau a bysiau
Yr hen Swyddfa Dreth (Plascrug):	Lleoliad delfrydol i rai sy'n prynu 'am y tro cyntaf' ac 'am y tro olaf' os caiff ei adnewyddu at safon uchel. Byddai lleoliad hen adeiladau'r Goron ar Stryd y Dollborth hefyd yn gyfleus i bobl ifanc ac i bobl hŷn
Ardal yr Eglwys Gatholig a chlinig Ffordd y Gogledd	Ni ddylid ei datblygu ar gyfer tai. Mae Cyngor y Dref am ddatblygu'r clinig i fod yn ganolfan ddinesig/gymunedol, gyda man gwyrdd gerllaw. Mae'r Eglwys Gatholig hanesyddol gyfagos yn agos iawn at galon pobl ac mae iddi werth pensaernïol. Dylid ei chadw ar gyfer defnydd cymunedol
Bryn Derw, Ffordd Stanley:	Lleoliad delfrydol i bobl hŷn sy'n prynu 'am y tro olaf' ac i bobl ifanc sy'n prynu 'am y tro cyntaf'